# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 15 CHWEFROR 2017 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M B Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Rheolwr Strategol Corfforaethol - Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol |
| Martin Bignell | Rheolwr yr Uned Gwasanaethau Coed |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Doyle, R D Lewis a/ac C Thomas

59 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

60 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2017 fel cofnod cywir.

61 **POLISI COED.**

Cyflwynodd Rheolwr Uned y Gwasanaethau Coed fersiwn derfynol y Polisi Coed.

Esboniodd y Swyddog pan fyddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar y wefan, y byddai hyperddolenni o'r dudalen gynnwys a fyddai'n mynd â chi'n syth i'r adran berthnasol yn y brif ddogfen.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddog am ei holl waith caled wrth gwblhau'r ddogfen.

**PENDERFYNWYD** anfon yr adroddiad ymlaen at aelod y cabinet perthnasol er mwyn ei gyflwyno i'r uned Briffio Corfforaethol a/neu'r Cabinet. Byddai'r ddogfen hefyd yn cael ei dosbarthu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

62 **POLISI AC ARFER Y CYNGOR O RAN CAFFAEL TIR.**

Cyflwynodd Rheolwr Strategol Corfforaethol - Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol adroddiad byr a oedd yn amlinellu Polisi ac Arfer y cyngor o ran Caffael Tir.

Tynnodd sylw at Reolau Gweithdrefnau Caffael Tir yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy'n amlinellu sut rheolir caffael tir/eiddo.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chaffael a gwerthu tir/eiddo a manylion swyddogion y dirprwyir awdurdod iddynt i gaffael eiddo. Gofynnwyd cwestiynau gan y Cynghorwyr, yr oedd y swyddog wedi ymateb yn briodol iddynt.

**PENDERFYNWYD**

1) Y dylid nodi'r adroddiad;
2) Cytunodd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu fod y Polisi yn addas at y diben ac yn gadarn.

63 **CYNLLUN GWAITH.**

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi'r cynllun gwaith;
2) Trefnu ymweliad safle yng Nghaerdydd ar gyfer mis Mawrth 2017.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.28 pm

**CADEIRYDD**